

Caerdydd yn y 19G

Nod yr adnodd hwn yw i:

- Ennyn diddordeb disgyblion mewn hanes lleol
- Ysgogi trafodaethau dosbarth
- Canolbwyntio ar astudiaeth i newidiadau ym mywydau pob dydd bobl yn Caerdydd a de ddwyrain Cymru yn ystod yr bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Adnodd addysgol

Bydd chwarae gêm llinell amser Caerdydd yn y 19G yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o gymeriadau, adeiladau, cludiant a digwyddiadau hanesyddol lleol.

Ar ôl chwarae'r gêm, bydd disgyblion yn gallu trafod pa rai o'r 'ffeithiau' oedd yn ddi-ddorol iddynt, a pha rai hoffon nhw wneud ymchwil pellach arny'n nhw. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys cyfres o daflenni gwybodaeth gyda gwybodaeth bellach i gyd-fynd â phob 'ffaith' ar y bwrdd gêm; mae'r taflenni hefyd yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth fanwl am y testun.

Am bob 'ffaith' yn y gêm, gallai'r disgyblion archwilio:

Pobl – Cymeriadau hanesyddol a'r boblogaeth gyffredin

Adeiladau – Adeiladau cyhoeddus a phreifat yn ardal Caerdydd

Cludiant – Ffyrdd, camlesi, rheilffyrdd, dociau

Cysylltiadau â Chastell Coch – mae cysylltiad rhwng pob darn o wybodaeth yn y gêm â Chastell Coch mewn rhyw ffordd – gallai disgyblion archwilio'r cysylltiadau hynny a beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am newidiadau ym mywydau pob dydd pobl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cysylltiadau Cwricwlwm

CA2 Fframwaith Llythrennedd – llafaredd ar draws y cwricwlwm – datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – cydweithio a thrafod

CA2 Hanes – sgiliau – ymwybyddiaeth gronolegol – dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio llinellau amser i ddilyn y digwyddiadau.

CA2 Hanes – sgiliau – gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol – dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion nodi pobl allweddol a disgrifio digwyddiadau o fewn ac ar draws cyfnodau

CA2 Hanes – ystod – dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion astudio newidiadau ym mywydau pob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

CA2 Hanes – ystod – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gynnal ymchwiliadau i hanes o'u cwmpas ac i fywyd pobl mewn gwahanol gyfnodau a lleoedd yn y gorffennol

CA2 Hanes – ystod – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ofyn ac ateb cwestiynau

1801

Poblogaeth Caerdydd yw 1,870

Yn 1801, roedd Caerdydd yn llai na llawer o drefi eraill yng Nghymru.

Roedd 6,099 o bobl yn byw yn Abertawe, ac roedd 7,705 o bobl yn byw ym Merthyr Tudful yn 1801.

Tyfodd poblogaeth Caerdydd yn gyflym drwy'r 1800au. Mae ffigurau'r cyfrifiad yn dangos mai poblogaeth Caerdydd oedd: 2,457 yn 1811; 3,251 yn 1821; 6,187 yn 1831; 10,077 yn 1841; 18,351 yn 1851; 32,954 yn 1861; 39,536 yn 1871; 82,761 yn 1881; a 128,915 yn 1891.

***Cysylltiad â Chastell Coch** – Roedd y teulu Bute yn berchen ar lawer o'r tir yn ardal Caerdydd, gan gynnwys y tir y mae Castell Coch wedi'i adeiladu arno. Dechreuodd Caerdydd ehangu'n gyflym o ganlyniad i ddiddordebau busnes y teulu Bute.*

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Wood (h□n) Clerc Tref Caerdydd yn 1801, John Stuart Ardalydd Cyntaf Bute.

Adeiladau – gallai disgyblion edrych ar fapiau i weld pa rannau o Gaerdydd oedd yn bodoli yn 1801, ac ar fapiau diweddarach i weld sut y tyfodd y ddinas drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cludiant – gallai disgyblion edrych ar fapiau i weld pa ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a dociau oedd yn bodoli yng Nghaerdydd yn 1801, ac ar adegau gwahanol drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Archifau Morgannwg – data cyfrifiad, mapiau, ffotograffau, cyfeirlyfrau masnach, cynlluniau adeiladu, gwybodaeth am Ardalydd Cyntaf Bute: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

British History Online, Cardiff Records 4, manylion am gyfnewid tir rhwng Arglwydd Bute a Chorfforaeth a Bwrdeistref Caerdydd yn 1803: <http://www.british-history.ac.uk/>

Casgliad y Werin Cymru – mapiau hanesyddol, ffotograffau: <http://www.peoplescollectionwales.co.uk/>

Mae cyfeirlyfr Caerdydd Piggot 1822 yn rhestru unigolion, gwasanaethau a busnesau ac yn rhoi darlun diddorol o Gaerdydd yn yr 1820au: <http://www.genuki.org.uk/big/wal/GLA/Cardiff/pigot.1822.html>

1814

Bu farw John Stuart, Ardalydd Cyntaf Bute

Ganwyd John Stuart yn 1744, a daeth yn Bedwerydd Iarll Bute. Yn 1766, priododd Charlotte Windsor, merch Alice Clavering a Herbert Windsor, sef Ail Is-iarll Windsor. Daeth ystadau enfawr yn Ne Cymru i ddwylo teulu Stuart (Bute) trwy'r briodas hon.

Yn 1776, cafodd John Stuart ei wneud yn Farwn Caerdydd, oherwydd ei fod yn berchen ar ystadau mawr yng Nghymru. Yn 1796, cafodd ei urddo yn Iarll Windsor, Is-iarll Mountjoy, ac Ardalydd Cyntaf Swydd Bute.

Bu farw John Stuart yn 1814 a daeth ei wŷr, John Crichton-Stuart, Iarll Dumfries, yn Ail Ardalydd Bute ac Arglwydd Caerdydd yn 21 oed, gan etifeddu holl dir ac adeiladau ei daid. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu John Crichton-Stuart yn gyfrifol am drawsnewid Caerdydd o fod yn dref fach arfordirol i un o'r dinasoedd pwysicaf yn y byd.

Gwelai John Stuart fod gwerth aruthrol i haearn a glo de Cymru, a datblygodd Caerdydd fel porthladd. Yn ystod Gwrthryfel Merthyr 1831, arweiniodd ymateb y llywodraeth o Gastell Caerdydd, gan anfon milwyr i reoli'r sefyllfa. Bu'n gyfrifol hefyd am anfon ysbiwyr i Ferthyr i gasglu gwybodaeth, ac anfon y wybodaeth honno wedyn i Lundain.

Cysylltiad â Chastell Coch – Roedd y tir y mae Castell Coch yn sefyll arno yn rhan o'r ystâd a etifeddodd Ail Ardalydd Bute. Yn 1814, yr unig adeiladau yno oedd adfeilion castell a adeiladwyd yn y 1300au.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute; John Stuart, Ardalydd Cyntaf Bute.

Adeiladau – gallai disgyblion edrych ar fapiau i weld pa adeiladau oedd yn bodoli yng Nghaerdydd yn 1814, ac ar fapiau diweddarach i weld sut y tyfodd y ddinas.

Cludiant – gallai disgyblion edrych ar fapiau i weld pa ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a dociau oedd yn bodoli yng Nghaerdydd yn 1814, ac ar adegau gwahanol drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Ail Ardalydd Bute hefyd yn Iarll Dumfries. Roedd ganddo gartrefi yng Nghaerdydd ac yn Dumfries yn yr Alban. Sut oedd bobl yn teithio'n lleol, neu ar deithiau hir, yn 1814?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Archifau Morgannwg – gwybodaeth am y teulu Bute, mapiau o Gaerdydd: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

1815

Sefydlu Ysgol Caerdydd

Sefydlwyd Ysgol Caerdydd er Hyrwyddo Addysg i'r Tlodion ar 9 Hydref 1815, dan lywyddiaeth John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute. Ysgol elusennol i fechgyn oedd yr ysgol wreiddiol, a oedd yn cael ei chynnal dros dro yn y Wycrcws.

Roedd cyngor y dref yn cefnogi Ysgol Caerdydd, gan roi £300 tuag at gostau adeiladu'r ysgol, a thir ar gyfer adeiladu'r ysgol ar delerau o 42 mlynedd ar rent blynyddol o 6d. Roedd y tir i'r de o Porridge Lane, ac i'r dwyrain o'r safle roedd lôn yn arwain at Yr Ais; roedd gardd i'r gorllewin, a lôn o'r enw Heol y Cawl i'r gogledd. I'r de o'r safle, roedd Knockers Hole a Baker's Row.

Agorwyd ysgol i ferched yn 1817 ar dir Porridge Lane (Stryd Wharton heddiw). Byddai'r merched yn plethu bonedau gwellt a gweu sanau ar gyfer eu gwerthu.

***Cysylltiad â Chastell Coch** – Cynigiwyd yr ysgolion gan Ail Ardalydd Bute, a oedd hefyd yn eu cefnogi'n ariannol. Rhoddodd fwthyn a gardd yn Crockherbtown (Heol y Frenhines heddiw) fel safle ar gyfer yr ysgol newydd i fechgyn.*

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Llywydd ac Is-lywydd yr ysgol: John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute; John Wood, Roath Court – clerc tref Caerdydd 1818-1825.

Adeiladau – Wycrcws Caerdydd, adeiladau Ysgol Caerdydd. Ble oedd y Wycrcws yn 1815? A oes unrhyw un o'r tri adeilad ysgol gwreiddiol yn dal i fodoli? A ellir eu canfod, neu'r manau lle roedden nhw wedi'u lleoli, ar fapiau?

Cludiant – sut oedd plant yn mynd i'r ysgol yn 1815? Pa mor bell fydden nhw'n teithio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys taflen ffeithiau 'WYRCWS' (atodiad 1).

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Gwefan British History Online – Llyfr Ysgol Caerdydd, 1815-1840; Cardiff Records 4, cofnodion y cyngor ar gyfer 20 Gorffennaf 1815; a Cardiff records 2, memoranda Clerc Tref Caerdydd:

<http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=48173>

<http://www.british-history.ac.uk/source.aspx?pubid=376>

<http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=48117>

Archifau Morgannwg – cofnodion undeb deddf y tlodion; mapiau; gwybodaeth am Ail Ardalydd Bute; mae cofnod yng Nghyfrifiad 1881 am wycrcws diweddarach yng Nghaerdydd yn rhoi mwy o wybodaeth am bobl oedd yn byw yn y wycrcws yr adeg honno:

<http://www.glamarchives.gov.uk/>

1835

Deddf y Corfforaethau Trefol yn dod yn gyfraith

Bu'r Ddeddf Seneddol hon yn gyfrifol am drawsnewid Caerdydd o fod yn Fwrdeistref ganoloesol i Gorfforaeth Drefol. Roedd yn rhaid i bob un o'r 178 Bwrdeistref roedd y Ddeddf hon yn effeithio arnyn nhw gyflogi clerc tref a thrysorydd; ni allai'r dynion hyn fod yn aelodau o'r cyngor. Roedd yn rhaid i'r corfforaethau trefol newydd hefyd gyhoeddi eu cyfrifon ariannol, a gellid mynnu bod y cyfrifon hynny'n cael eu harchwilio.

Cyn 1835, Cwnstabl Castell Caerdydd i bob pwrpas oedd Arglwydd y Ddinas, ac roedd yn ŵr pwerus iawn. Llywodraethwyr milwrol y Fwrdeistref oedd Meiri Caerdydd, ac roedden nhw'n cael eu penodi gan y Cwnstabl ac Arglwydd Caerdydd. Yn 1835, Cwnstabl Castell Caerdydd ac Arglwydd Caerdydd oedd yr Ardalydd Bute.

Mae pob un o Feiri Caerdydd ers 1836 wedi ei ethol gan gynghorau Caerdydd, sydd wedi'u ffurfio o gynghorwyr etholedig.

Yn 1836, roedd Corfforaeth newydd Caerdydd yn cynnal cyfarfodydd ar ddiwrnod cyntaf Mawrth, y Llun cyntaf ym Mehefin, a'r Llun cyntaf ym Medi, am 11 o'r gloch y bore. Byddai'r Maer, yr Henaduriaid a'r Cynghorwyr yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ar gyfer trafod materion yn unol â Deddf y Corfforaethau Trefol.

***Cysylltiad â Chastell Coch** – golygai'r ddeddf hon y gallai'r gorfforaeth anghytuno ag Ardalydd Bute, perchennog Castell Coch, ynghylch materion yn ymwneud â'r ddinas, ac y gallen nhw wneud pethau heb ei gymeradwyaeth neu ei gefnogaeth cyn belled â bod mwyafrif y cynghorwyr yn cytuno. Roedd hyn yn cyfyngu ar bŵer Ardalydd Bute dros benderfyniadau ynghylch beth ellid ei wneud yn ardal Caerdydd.*

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Thomas Revel Guest, Maer etholedig cyntaf Caerdydd; Walter Coffin, cadeirydd etholedig cyntaf y cyngor; William Prichard, John Bird, William Towgood, a Charles Crofts Williams, bob un yn Henadur etholedig; Edward Priest Richards, Clerc y Dref; William Jenkins, Trysorydd a Chasglwr Rhenti i'r Gorfforaeth.

Adeiladau – ble roedd cyfarfodydd y cyngor yn cael eu cynnal yn 1836?

Cludiant – pa ddulliau cludiant oedd ar gael yn 1836? Sut oedd cynghorwyr yn cyrraedd cyfarfodydd?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – cofnodion o Fwrdeistref Caerdydd; papurau Edward Priest Richards:
<http://www.glamarchives.gov.uk>

British History online, Cardiff Records Volume 4:
<http://www.british-history.ac.uk/source.aspx?pubid=376>

1836

Sefydlu Cwmni Rheilffordd TaffVale

Crëwyd y cwmni ar 21 Mehefin 1836, gan Ddeddf Seneddol oedd yn caniatáu ffurfio Cwmni Rheilffordd TaffVale.

Roedd y Ddeddf yn rhoi caniatâd i adeiladu rheilffordd o Ferthyr Tudful i Ddoc Gorllewin Bute yng Nghaerdydd, gyda changen i Cogan Pill, yn ogystal â chysylltiadau i'r tramffyrdd ym Mhenydarren, Dowlais, a Gwaith Haearn Plymouth ym Merthyr Tudful.

Adeiladwyd darn cyntaf y rheilffordd, o Gaerdydd i Abercynon, gan Isambard Kingdom Brunel, a'i hagor yn 1840.

Cysylltiad â Chastell Coch – roedd terfyn y llinell rheilffordd newydd yn Noc Bute, a adeiladwyd gan Ail Ardalydd Bute; ei fab ail-adeiladodd Castell Coch. Ar un adeg byddai'r trenau'n aros yn Nghongwynlais, ger Castell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Cyfarwyddwr Cwmni TaffVale – Josiah Guest (ef oedd y cadeirydd cyntaf), Walter Coffin, Edward Lee, Thomas Guest, Thomas Guppy, Thomas Powell, Christopher James, Thomas Carlisle, Henry Rudhall, William Wait, William Watson, Peter Maze a Isambard Kingdom Brunel.

Adeiladau – Pa adeiladau gafodd eu codi gan y cwmni rheilffordd, a ble? Sut cawson nhw eu hadeiladu, a chan bwy?

Cludiant – Pam adeiladwyd y rheilffordd? O ble rhedai'r rheilffordd, ac i ble? Pa fath o drenau oedd yn rhedeg ar y rheilffordd, a beth oedden nhw'n ei gludo?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – mapiau; cynlluniau (gan gynnwys rhai o arolygon trefsur Brunel); amserlenni; botymau lifrai; lluniadau a ffotograffau diweddarach; mesurau a deddfau.

<http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Headline, sef hanes Heddlu'r Doc a'r Rheilffordd: <http://headline.org.uk/>

1836

Sefydlu Heddlu Bwrdeistref Caerdydd

Roedd poblogaeth Caerdydd yn tyfu'n gyflym iawn, ac wedi cyrraedd tua 6,000 erbyn 1836. Roedd trosedd ac anrhefn yn dod yn broblem.

Roedd Caerdydd yn orlawn wrth i bobl heidio yno o rannau eraill o'r DU ac Iwerddon, yn chwilio am waith. Ond nid oedd digon o dai ar gyfer yr holl bobl fyw.

Roedd cwnstablaid arbennig wedi cael eu penodi mor gynnar ag 1819, ond roedd y ddinas yn tyfu mor gyflym nes roedd angen llw mwy trefnus.

Cysylltiad â Chastell Coch – Roedd Caerdydd yn ehangu'n gyflym, yn rhannol oherwydd diddordebau busnes Ail Ardalydd Bute. Mae e'n cael ei ystyried yn grëwr Caerdydd fodern, gan ei fod yn berchen ar gymaint o'r tir yn ardal Caerdydd, gan gynnwys y tir yr adeiladwyd Castell Coch arno. Cododd dai i'r gweithwyr a oedd yn adeiladu'r dociau; roedd y rhain yn orlawn, gyda chynifer â 50 o bobl yn rhannu rhai ystafelloedd.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Jeremiah Box Stockdale, Uwch-Arolygydd cyntaf Heddlu Bwrdeistref Caerdydd, a oedd yn adnabyddus fel y 'Iron Copper'. Beth oedd ei gefndir, o ble daeth, am ba hyd y bu'n Uwch-arolygydd yr Heddlu? Cafwyd 4 heddwes i'w helpu. Pwy oedden nhw? O ble daethon nhw?

Adeiladau – Ble roedd yr orsaf heddlu gyntaf? A oedd unrhyw orsafoedd heddlu eraill mewn adeiladau a oedd eisoes wedi'u codi, neu a godwyd unrhyw orsafoedd heddlu yng Nghaerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Cludiant – Sut oedd yr heddlu'n teithio o amgylch Caerdydd yn 1836?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan amgueddfa Heddlu De Cymru: <http://www.southwalespolicemuseum.org.uk/>

Archifau Morgannwg – cofnodion Heddlu Bwrdeistref Caerdydd; mapiau; cynlluniau o orsafoedd heddlu: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Headline, sef hanes Heddlu'r Doc a'r Rheilffordd: <http://headline.org.uk/chronology/>

British History online, Cardiff Records 4, cofnodion y cyngor 14 Rhagfyr 1843.

<https://www.british-history.ac.uk/>

1839

Agor Doc Gorllewin Bute

Yn 1794, adeiladwyd Camlas Morgannwg i gludo haearn or pedwar waith haearn yn Merthyr i Gaerdydd, ar gyfer ei allforio. Bedair blynedd yn ddiweddarach adeiladwyd basn doc bach i gysylltu'r gamlas â'r môr. Erbyn yr 1830au roedd Caerdydd wedi dod yn borthladd allforio haearn pwysig iawn; byddai bron i hanner yr holl haearn oedd yn cael ei allforio o Brydain yn gadael porthladd Caerdydd. Roedd angen dociau mwy, gan nad oedd y basn doc bach yn ddigon mawr i longau mawr; nac i nifer y llongau roedd eu hangen i allforio'r haearn.

Dan gyfarwyddyd John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute, adeiladwyd Doc Gorllewin Bute ar dir oedd yn eiddo iddo ger y basn doc bach. At hynny, cododd chwech stryd o dai i gweithwyr i gael byw ynddynt tra roedden nhw'n adeiladu'r doc, sef ardal newydd a alwyd yn 'Newtown'.

Cymerodd y doc newydd pedwar blynedd i'w adeiladu, ac fe'i dyluniwyd gan y Llyngesydd William Henry Smyth. Roedd yn ymestyn dros 19 erw ac roedd yno 9,400 troedfedd o gei i longau gael docio. Adeiladwyd camlas Bwydo'r Doc hefyd, a oedd yn cysylltu'r doc newydd â Chamlas Morgannwg. Y gwaith o adeiladu'r doc a'r gamlas newydd oedd y prosiect peirianeg mwyaf erioed ym Mhrydain i gael ei ariannu'n breifat, ac fe dalwyd amdano'n llawn gan Ail Ardalydd Bute.

Cysylltiad â Chastell Coch – Ail Ardalydd Bute oedd wedi rhoi cyfarwyddyd i adeiladu'r doc, ac ef oedd yn berchen ar y tir yr adeiladwyd y doc arno, yn ogystal ag adfeilion Castell Coch. Ailgodwyd Castell Coch gan fab Ail Ardalydd Bute.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Crichton Stuart, Ail Ardalydd Bute; y Llyngesydd William Henry Smith; John Bachelor, masnachwr coed y mae cerflun ohono ar yr Ais.

Adeiladau – Sut adeiladwyd y doc? Faint o amser a gymerodd i'w adeiladu? A godwyd unrhyw adeiladau ar gyfer y doc? Ble mae Newtown, Caerdydd? Sut rai oedd y tai?

Cludiant – Beth ellir ei ddarganfod am y llongau oedd yn defnyddio'r doc? I ble cludwyd yr haearn? Beth oedd cynllun Camlas Bwydo'r Doc? A yw'n dal i fodoli?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Archifau Morgannwg – gwybodaeth am y dociau, gan gynnwys mapiau a chynlluniau, ffotograffau, cyfeirlyfrau masnach, blwyddlyfrau glo: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Headline, sef hanes Heddlu'r Doc a'r Rheilffordd: <http://headline.org.uk/>

Gwefan Coflein Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru:
<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/20196>

Gwefan Casgliad y Werin Cymru – golwg ar Ddoc Gorllewin Bute yn 1853, ac iard longau Bachelor yn 1859: <http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/9318>

1847

Ganwyd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute

Ganwyd John Patrick Crichton-Stuart yn Nhŷ Mount Stuart ar Ynys Bute, yr Alban.

Roedd yn llai na blwydd oed pan fu farw ei dad, ac etifeddodd holl gyfoeth ei dad, ynghyd â llawer iawn o dir yn yr Alban a Chymru. Bu farw ei fam pan oedd e'n 12 oed, ac roedd y gwarcheidwaid cyfreithiol a oedd yn gofalu amdano yn anghytuno ynglŷn â'r ffordd orau i'w fagu.

Pan oedd yn 21 oed, ac yn oedolyn yn ôl y gyfraith, troes Trydydd Ardalydd Bute yn Babydd, er mawr syndod i bawb. Roedd yn un o'r dynion mwyaf cyfoethog yn y byd, ond roedd yn well ganddo fyw bywyd tawel a phrefat, yn dilyn ei ddi-ddordebau. Roedd yn ieithydd medrus ac yn deall 21 o ieithoedd (dysgodd Gymraeg yn ei 20au cynnar); yn ysgolhaig a ymddiddorai mewn hanes, pensaernïaeth a chrefydd; roedd hefyd yn deithiwr brwd.

Cysylltiad â Chastell Coch – y Trydydd Ardalydd fu'n gyfrifol am gynllunio ac ariannu'r gwaith o ailgodi Castell Caerdydd, Castell Caerffili a Chastell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute; John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute (ei dad); Sophia Bute, Hastings gynt, merch Ardalydd Cyntaf Hastings (ei fam); Arglwyddes Gwendolen Mary-Ann Fitzalan-Howard (ei wraig); a'i blant, Arglwyddes Margaret Crichton-Stuart, John Crichton-Stuart, Pedwerydd Ardalydd Bute, Lt.-Col. Arglwydd Ninian Edward Crichton-Stuart, Arglwydd Colum Edmund Crichton-Stuart.

Adeiladau – Castell Coch, Castell Caerdydd, Castell Caerffili. Sawl cartref oedd gan y Trydydd Ardalydd, a ble roedden nhw? A oes unrhyw adeiladau neu fannau yng Nghaerdydd sydd wedi'u henwi ar ôl yr Ardalydd neu aelodau o'i deulu?

Cludiant – sut oedd y Trydydd Ardalydd yn teithio rhwng ei gartrefi? I ble arall y teithiai, a sut? Pam roedd yn teithio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Archifau Morgannwg – Gwybodaeth cyfrifiad, mapiau a chynlluniau gan gynnwys cynlluniau adeiladu strydoedd a enwyd ar ôl y teulu a mannau ar Ynys Bute; gwybodaeth am gludiant yn oes Fictoria.

<http://www.glamarchives.gov.uk/>

The Project Gutenberg EBook of John Patrick, Third Marquess of Bute, K.T., gan David Hunter Blair: <http://www.gutenberg.org/files/35884/35884-h/35884-h.htm>

1848

Y terfysg cyntaf ar sail hil yng Nghaerdydd

Llofruddiaeth Cymro gan Wyddel oedd achos y terfysg.

Roedd Thomas Lewis yn cerdded gyda'i wraig yn Newtown, Caerdydd, pan gafodd ei drywanu i farwolaeth gan Wyddel, o'r enw John Connors. Thomas Lewis oedd y trydydd Cymro i gael ei lofruddio gan Wyddel o fewn ychydig fisoedd, ac aeth torf flin i Newtown, Caerdydd, i ddod o hyd i'r llofrudd.

Adroddwyd y canlynol yn y *Manchester Guardian* ym 1848:

"Friday last more than 200 Irish paupers, men, women, and children, landed from Cork on Penarth beach, and instantly proceeded to demand relief at the Cardiff workhouse, though the same were possessed of a little money. Nearly all were lodged in the workhouse, but when they found that they were to be passed to Ireland several of the men scaled the walls, and deserted their wives and children. All of them have been sent to their own country by one of the Irish steamers; but their brief sojourn in Cardiff, and the expenses of their passage, were said to have cost the union more than £200."

Roedd Newtown, gyda thua 200 o dai mewn chwech stryd, yn cael ei alw'n 'Little Ireland' oherwydd roedd bron pob un o'r trigolion wedi dod o Iwerddon. Nid oedd yn anghyffredin gweld cynifer â 50 o bobl yn byw yn yr un tŷ yn Newtown yn yr 1840au ac 1850au. Yn 1848 roedd dros 25% o boblogaeth Caerdydd wedi'u geni yn Lloegr, a thua 10% wedi'u geni yn Iwerddon.

Cysylltiad â Chastell Coch – adeiladwyd Newtown gan Ail Ardalydd Bute yn gartref i weithwyr adeiladu a oedd yn adeiladu'r dociau newydd. Roedd Ail Ardalydd Bute yn berchen ar adfeilion Castell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Thomas Lewis, John Connors. Gwyddelod yn byw yng Nghaerdydd – pam roedd cynifer o Wyddelod yn dod i Gaerdydd o 1845 ymlaen?

Adeiladau – Tai yn Newtown. Sut lefydd oedd y tai? Ble roedd yr holl bobl a ddeuai i Gaerdydd i weithio yn byw? Ydy Newtown i'w weld ar fap? Ble mae'r dystiolaeth fod cynifer â 50 o bobl yn byw mewn un tŷ?

Cludiant – sut oedd pobl yn teithio o Iwerddon i Gaerdydd?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – Gwybodaeth cyfrifiad; mapiau a chynlluniau; cynlluniau rheoliadau adeiladu ar gyfer tai yn Newtown; ffotograffau; cofnodion eglwysy Pabyddol.

<http://www.glamarchives.gov.uk/>

1856

Siop gyntaf Howells yn agor

Agorodd James Howell, a oedd wedi bod yn brentis i ddilledydd yn Abergwaun, ei siop ddillad gyntaf dan Neuadd Stuart yn yr Ais, ym mis Hydref 1856. Ym mis Awst 1867 symudodd Howells i 13 Heol Eglwys Fair, ac fe brynodd rif 12 yn 1869 i agor adrannau newydd ar gyfer carpedi, nwyddau i'r cartref, hetiau a gwasanaethau angladdol. Dros y deng mlynedd nesaf prynodd warws dodrefn yn Heol Wharton, a mwy o siopau yn Heol Eglwys Fair.

Yn 1880, ceisiodd Corfforaeth Caerdydd brynu Tŷ Wharton, y darn o siop Howells sy'n wynebu Heol Wharton, ond gwrthododd James Howell ei werthu. Erbyn 1883 roedd Howells yn berchen ar 9-14 Heol Eglwys Fair ac wedi prynu adeilad Bragdy Biggs yn y cefn a oedd yn wynebu Heol y Drindod. Agorwyd adrannau newydd yn gwerthu dodrefn yn Heol y Drindod. Yn yr 1890au fe brynodd James Howell fwy o siopau yn Heol Wharton a Heol Charles.

Wrth i'r busnes dyfu daeth Mr Howell yn fwy cefnog ac uchel ei barch ymhlith cymdeithas yng Nghaerdydd, a dechreuodd gyflwyno rhoddion elusenol. Ar 13 Ionawr 1890 diolchodd Cyngor Caerdydd i Mr James Howell am ei rodd o fustach gwobrwyol i dlodion Caerdydd. Yn 1896, diolchwyd i Mr James Howell unwaith yn rhagor am 'his generosity in undertaking to decorate the Exhibition Hall free of charge, on the occasion of the admission of His Royal Highness the Prince of Wales'.

Cysylltiad â Chastell Coch – Mae Doctor Who yn cael ei ffilmio yng Nghastell Coch ac o gwmpas, a hefyd y tu mewn a'r tu allan i siop Howells. Mae'n debygol y byddai James Howell a John Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn adnabod ei gilydd gan fod y ddau'n ddynion cyfoethog iawn ac yn byw yng Nghaerdydd ar yr un adeg.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – James Howell

Adeiladau – Siop Howells, Caerdydd.

Cludiant – Sut cludwyd y garreg a ddefnyddiwyd i adeiladu'r siop? Ble oedd y nwyddau a werthid yn y siop yn cael eu gwneud, a sut oedden nhw'n cael eu cludo? Sut oedd cwsmeriaid yn teithio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – Gwybodaeth cyfrifiad; ffotograffau; rhestrau o eitemau a brynid yn y siop; cynlluniau o ddarpar addasiadau i'r siop; '60 Years' Hanes Cwmni James Howell Cyf. 1865 i 1925: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Casgliad y Werin Cymru – Lluniau o James Howell, Siop Howells: <http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/12628>

<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/11561>

Gwefan British History Online – Cardiff Council Records 5, cofnodion y cyngor 1884-5 a 1889-91: <http://www.british-history.ac.uk/search.aspx?query1=Howell&rf=pubid:377>

1859

Agor Doc Dwyrain Bute

Roedd digonedd o gronfeydd glo yn Ne Cymru, a chyda datblygiad peiriannau stêm a thechnolegau roedd angen glo fel tanwydd, a daeth glo yn nwydd gwerthfawr iawn. Yn yr 1850au roedd allforio glo yn dod yn bwysicach nag allforio haearn, ac nid oedd Doc Gorllewin Bute yn ddigon mawr i ymdopi â'r holl longau ychwanegol.

Comisiynodd Ail Ardalydd Bute ail ddoc; fe'i cynlluniwyd gan James Walker ac adeiladu gan gwmni Thomas Cubitt.

Dechreuodd y gwaith o adeiladu Doc Dwyrain Bute yn 1855, ac roedd wedi'i gwblhau erbyn 1860. Roedd Doc Dwyrain Bute yn 4,300 troedfedd o hyd, 500 troedfedd o led, a hyd at 31 troedfedd o ddyfnder.

Cyrhaeddodd y trên cyntaf o lo stêm i Gaerdydd o bwll glo Ail Ardalydd Bute yn Rhondda yn 1855.

***Cysylltiad â Chastell Coch** – Roedd Ail Ardalydd Bute yn berchen ar Ddoc Dwyrain Bute ac adfeilion Castell Coch. Cynlluniwyd y Doc gan James Walker o gwmni Messrs Walker a Burges. Roedd James Walker wedi cyflogi Alfred Burges yn 1811 ac wedi ei drwytho yn y busnes. Daeth Alfred Burges yn bartner yn y busnes yn 1829. Cafodd ef fab, William Burges, a fu'n gyfrifol am gynllunio a rheoli'r gwaith o ailadeiladu Castell Coch yn yr 1870au.*

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Thomas Cubitt; James Walker; Alfred Burges; John Crichton-Stuart, Ail Ardalydd Bute; pobl gyffredin a fu'n adeiladu, defnyddio neu weithio yn y doc.

Adeiladau – Sut adeiladwyd y doc? O ble daeth y deunyddiau i adeiladu'r doc? A godwyd unrhyw adeiladau?

Cludiant – Sut oedd y glo'n cyrraedd y doc newydd? Beth ellid ei ddarganfod am y llongau oedd yn defnyddio'r doc? I ble roedd y glo'n cael ei allforio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan Coflein Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: <http://www.coflein.gov.uk/>

Gwefan y Teulu Bute: <http://www.butefamily.com/>

Archifau Morgannwg – Gwybodaeth cyfrifiad, mapiau a chynlluniau, ffotograffau, cynlluniau adeiladau, cyfeirlyfrau masnach, blwyddlyfrau glo. <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Allforion glo o Gaerdydd – manylion yng nghyfeirlyfr masnachol Slaters o Gaerdydd, 1880
<http://www.genuki.org.uk/big/wal/GLA/Cardiff/slaters.1880.html>

1860

Sefydlu Cymdeithas Adeiladu Principality

Enw gwreiddiol Cymdeithas Adeiladu Principality oedd Cymdeithas Adeiladu Buddsoddi Parhaol Principality, ac fe'i sefydlwyd yn Heol yr Eglwys, Caerdydd gan yr Henadur William Sanders. Incwm y flwyddyn gyntaf oedd £367.

Doedd gan y Gymdeithas ddim cartref parhaol yn y deng mlynedd cyntaf, ond yn 1870 agorodd Principality ei bencadlys cenedlaethol swyddogol cyntaf yn 8 Arcêd Frenhinol, Caerdydd. Yn 1872 agorodd Principality swyddfa yng Nghasnewydd, ac agorodd asiantaeth o'r Gymdeithas yng Nglynebwy yn 1873. Yn 1880 roedd gan y Gymdeithas swyddfa yn 28 Heol Eglwys Fair.

Cysylltiad â Chastell Coch – Byddai'r Arglwydd Bute, perchennog Castell Coch a Chastell Caerdydd, yn mynd i gyfarfodydd o gyngor Caerdydd gyda'r Henadur William Sanders, a oedd hefyd yn ynad heddwch (Barnwr). Bu'r Arglwydd Bute a William Sanders yn Feiri Caerdydd – William Sanders yn 1889 (talwyd £150 iddo), Arglwydd Bute yn 1890 (talwyd £750 iddo)

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Henadur William Sanders, Rheolwr-Ysgrifennydd Principality (1862); Robert Day, Cadeirydd (1876 - 1895)

Adeiladau – 28 Heol Eglwys Fair; 8 Arcêd Frenhinol.

Cludiant – Sut oedd pobl yn teithio o amgylch Caerdydd yn 1860? Pa ddulliau teithio oedd ar gael iddynt?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan Cymdeithas Adeiladu Principality:

<http://www.principality.co.uk/en/about-us/your-principality/history.aspx>

<http://www.nemo.principality.co.uk/news-and-events/news/News-Items/Queen%20Street%20Birthday.aspx>

Gwefan British History Online, Cardiff Records cyfrolau 4 a 5:

<http://www.british-history.ac.uk/place.aspx?gid=92®ion=8>

Papur newydd Western Daily Press 2 Mawrth 1903

Archifau Morgannwg – Cynlluniau o'r Arcêd Frenhinol : <http://www.glamarchives.gov.uk>

1861

Agor llyfrgell gyhoeddus gyntaf Caerdydd

Yn 1860, gofynnodd y Cynghorydd Mr George Smart i Faer Caerdydd drefnu cyfarfod o'r Bwrdeiswyr i ystyried sefydlu Llyfrgell Rydd ac Ystafell Ddarllen dan bwerau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus, 1855. Yn 1861 Caerdydd oedd y dref gyntaf yng Nghymru i sefydlu llyfrgell gyhoeddus, ac roedd honno mewn eiddo uwchben y fynedfa o Heol Eglwys Fair i'r Arcêd Frenhinol yng Nghaerdydd.

Yn 1878, etholodd Corfforaeth Caerdydd bwyllgor arbennig i benderfynu ble i adeiladu llyfrgell newydd. Penderfynodd y pwyllgor adeiladu'r llyfrgell newydd ym mhen gogleddol yr Ais, gerllaw mynwent Sant Ioan. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddewis dyluniad i'r adeilad, a'r enillwyr oedd y penseiri James, Seward a Thomas.

Costiodd adeilad y llyfrgell newydd £9,000, ac fe'i hagorwyd ar 31 Mai 1882 gan Arglwydd Faer Caerdydd, Alfred Thomas. Fe'i galwyd yn Llyfrgell, Amgueddfa ac Ysgol Rydd Caerdydd ar gyfer Gwyddoniaeth a Chelf ac roedd yn cynnwys oriel gelf. Codwyd arian ar gyfer adeiladu a chynnal y llyfrgell trwy ychwanegu treth o geiniog ymhob punt at y trethi blynyddol (treth y cyngor) a godid ar adeiladau yng Nghaerdydd.

Cysylltiad â Chastell Coch – gofynnwyd i'r Arglwydd Bute osod carreg sylfaen adeilad 1882, ond ni allai wneud hynny. Trefnodd yr Arglwydd Bute hefyd i rai o'i lyfrau gael eu rhoi i'r Llyfrgell o'i lyfrgell bersonol fawr yng Nghastell Caerdydd.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Councillor George Smart; Mr Henry Allpass, Secretary and Librarian, later Chief Librarian; Edwin Seward

Adeiladau – mynedfa o Heol Eglwys Fair i'r Arcêd Frenhinol, adeilad Llyfrgell Ganolog Caerdydd 1882.

Cludiant – Pa ddulliau teithio oedd ar gael rhwng 1860 ac 1882? Beth oedd y prif lwybrau teithio yng Nghaerdydd yn y cyfnod hwn?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – Cynlluniau a ffotograffau o adeiladau'r llyfrgell, cofnodion pwyllgor y llyfrgell, mapiau a ffotograffau yn ymwneud â chludiant yng Nghaerdydd yn 1860 -1882:
<http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig ar-lein, manylion rhestru:
<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-14111-former-central-library-castle>

British History Online, Cardiff Records Cyfrol 4, 1876-1879:
<http://www.british-history.ac.uk/source.aspx?pubid=376>

1865

John Patrick Crichton-Stuart yn cyfarfod â William Burges

Roedd William Burges yn bensaer a oedd hefyd yn dylunio gwaith metel, cerfluniau, gemwaith, celfi a gwydr lliw. Roedd John Patrick Crichton Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn un o'r dynion cyfoethocaf yn y byd. Mae'n debygol fod y ddau wedi cyfarfod trwy law John McConnochie, y peiriannydd dociau a gyflogwyd gan Walker, Burges a Cooper (cwmni peirianeg sifil roedd tad William Burges yn berchen arno) ac a oedd yn gweithio ar Ddoc Dwyrain Bute.

Roedd llawer yn gyffredin rhwng John Patrick Crichton-Stuart a William Burges, yn enwedig eu diddordeb mewn hanes, celf a phensaerniaeth y canol oesoedd, a daeth y ddau yn gyfeillion. Yn wir, Trydydd Ardalydd Bute oedd noddwr pwysicaf William Burges, ond roedd hefyd yn ysgolhaig a hynafiaethwr, yn ysgolhaig ar y canol oesoedd ac yn adeiladwr brwd; ychwanegodd llawer mwy nag arian at eu partneriaeth.

Dechreuodd John Patrick Crichton Stuart a William Burges gynllunio ar gyfer ailadeiladu Castell Caerdydd yn fuan ar ôl cyfarfod, a dechreuodd y gwaith ar y castell yn 1866. Ym mis Rhagfyr 1872 cyflwynodd Burges gynnis i'r Arglwydd Bute ar gyfer ailadeiladu Castell Coch, a dechreuodd y gwaith yng Nghastell Coch yn 1875.

Cysylltiad â Chastell Coch – Adfail castell canol oesol oedd yno yn 1865. Fe'i trawsnewidiwyd yn gastell fel y gwyddom amdano heddiw wedi i Bute a Burges gyfarfod, ffurfio cynllun a mynd ati i'w ailadeiladu. Roedd Burges hefyd yn gyfrifol am ddylunio ac adeiladu Park House i John McConnochie.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John McConnochie; John Patrick Crichton-Stuart; William Burges

Adeiladau – Castell Coch; Castell Caerdydd; Park House (20 Park Place)

Cludiant – Pa ddulliau teithio oedd ar gael yn ardal Caerdydd yn 1865?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – copiau printiedig o ddarluniau o ddyluniadau ar gyfer adeiladau yng Nghaerdydd gan Burges; llyfrau ar Burges; mapiau: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein, gwybodaeth am Gastell Caerdydd, Castell Coch a Park House: <http://www.coflein.gov.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig ar-lein, manylion rhestru Park House: <http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-13772-park-house-castle>

1866

Dechrau'r gwaith o ailadeiladu Castell Caerdydd

Yn 1865, gofynnodd John Patrick Crichton-Stuart i'r pensaer William Burges gyflwyno adroddiad ar gyflwr Castell Caerdydd; dyna oedd dechrau partneriaeth 16 mlynedd rhwng y ddau ddyn a drawsnewidiodd y castell ar sail dehongliad cyfnod Fictoria o balas canol oesol.

Cyflogodd Burges grŵp o ddynion a fu'n gweithio gydag ef drwy gydol y broses o adnewyddu'r castell. Galwodd John Patrick Crichton-Stuart ar haneswyr lleol o fri am gymorth i ymchwilio i hanes y castell, a sefydlodd 'Gweithdai Bute' (yn wreiddiol yn Heol Tyndall, ond yn stablau ar gyfer Castell Caerdydd yn ddiweddarach), gan gyflogi nifer o grefftwyr gorau Cymru. Roedd nifer ohonyn nhw wedi bod yn gweithio ar adfer Cadeirlan Llandaf.

Y dasg gyntaf oedd dymchwel y tai oedd wedi'u hadeiladu yn erbyn llenfur y de. Adnewyddwyd y gwaith maen, ac adeiladwyd rhodfa ben clawdd dan do gydag agorfeydd a thyllau saethu, cyn dechrau gweithio ar dŵr y cloc.

Yn 1872, priododd John Patrick Crichton-Stuart â Gwendolen Fitzalan Howard, a chynlluniodd Burges feithrinfa yng Nghastell Caerdydd yn barod ar gyfer eu plant. Ailgodwyd tŵr Bute a thŵr Herbert, ac ychwanegwyd tyrau newydd – tŵr i Westeion a thŵr y Tanc. Creodd Burges lyfrgell a neuadd wleda o fewn yr adeiladau canol oesol, ac atgyweiriodd y tŵr Octagon.

Bu farw William Burges yn 1881, ond parhawyd â'r gwaith roedd wedi'i gynllunio gan ei gyn-gynorthwydd, William Frame. Ef hefyd a fu'n gyfrifol am godi'r Mur Anifeiliaid.

Cysylltiad â Chastell Coch – Yn 1866 adfeilion castell canol oesol oedd yng Nghaerdydd, gydag ychwanegiadau yn dyddio o'r 1800au cynnar. Ei berchennog oedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, a oedd hefyd yn berchen ar Gastell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Patrick Crichton-Stuart; William Burges; William Frame

Adeiladau – Castell Caerdydd, Castell Coch

Cludiant – Pa ddulliau a llwybrau teithio oedd ar gael yn ardal Caerdydd yn 1866?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg: copiâu printiedig o ddarluniau o ddyluniadau ar gyfer adeiladau yng Nghaerdydd, gan gynnwys Castell Caerdydd, gan Burges; llyfrau ar Burges; mapiau
<http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein, gwybodaeth am Gastell Caerdydd a Chastell Coch: <http://www.coflein.gov.uk/>

Casgliad y Werin Cymru, gwybodaeth am Gastell Caerdydd a Chastell Coch:
<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/>

1867

Ailadeiladu Eglwys y Santes Farged

Yn yr 1800au, byddai mwyafrif y bobl yn mynd i'r eglwys bob wythnos. Tyfodd poblogaeth Caerdydd yn gyflym yn yr 1840au, 1850au a'r 1860au, ac erbyn canol yr 1860au, roedd Eglwys y Santes Farged yn rhy fach i ddiwallu anghenion pobl oedd yn byw yn yr ardal.

Roedd yr eglwys wreiddiol yn cynnwys beddrod (capel claddu teuluol) a adeiladwyd gan John Stuart, Ardalydd Cyntaf Bute yn 1800, pan fu farw ei wraig. Roedd John Stuart yn bwriadu i'r beddrod fod yn orffwysfan teuluol am genedlaethau i ddod.

Yn 1867 dymchwelwyd yr hen eglwys ar orchymyn Trydydd Ardalydd Bute, a oedd yn 21 oed ac yn Babydd. Dechreuodd y gwaith o ailadeiladu'r eglwys gan ddefnyddio Alexander Roos, pensaer ystâd Bute. Yn 1868 diswyddwyd Alexander Roos gan yr Ardalydd, a gofynnwyd i bensaer lleol, John Prichard, gynllunio eglwys Gothig newydd ar y safle. Roedd Prichard wedi bod yn rhan o'r tîm a fu'n gyfrifol am adnewyddu Cadeirlan Llandaf hefyd. Agorodd yr eglwys newydd yn 1870.

Rhwng 1881 ac 1886 ychwanegwyd capel newydd cain at eil y gogledd fel beddrod newydd ar gyfer beddau'r teulu Bute.

Cysylltiad â Chastell Coch – John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute a pherchennog Castell Coch a dalodd am ailadeiladu Castell Coch ac eglwys y Santes Farged, sef eglwys y plwyf. Darparwyd y gwydr ar gyfer Eglwys y Santes Farged, Castell Caerdydd a chapel Castell Coch gan gwmni Saunders & Co, Birmingham.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Stuart, Ardalydd Cyntaf Bute ; John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute; Alexander Roos, pensaer; John Prichard, pensaer; William Gualbert Saunders, dylunydd gwydr.

Adeiladau – Eglwys y Santes Farged, eglwys y plwyf; Beddrod Bute.

Cludiant – O ble daeth y deunydd adeiladu ar gyfer yr eglwys? Sut y cludwyd y deunyddiau hyn? Sut byddai pobl yn teithio i'r eglwys yn yr 1870au?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

We-fan Eglwys y Santes Farged: <http://www.roath.org.uk/StMargaret/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig ar-lein, manylion rhestru:
<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-13819-church-of-st-margaret-roath>

Archifau Morgannwg – cofnodion plwyf: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein – darluniau pensaernïol, adroddiadau, brasluniau, cardiau post:
<http://www.coflein.gov.uk/>

Gwefan Stained Glass in Wales, gwybodaeth am waith gwydr a wnaed gan Saunders & Co:
<http://stainedglass.llgc.org.uk/person/85>

1870

Gwaith ailadeiladu Castell Caerffili yn dechrau

Roedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn berchen ar Gastell Caerffili. Roedd ganddo weledigaeth ar gyfer y castell hwn a oedd bellach yn adfail, sef ei ail-greu'n gywir ar ffurf y castell canol oesol gwreiddiol.

Yn 1868 dathlodd ei ben-blwydd yn 21 oed; roedd bellach yn ddigon hen i ddefnyddio'r cyfoeth roedd wedi'i etifeddu. Gofynnodd i'r peiriannydd sifil nodedig, George Thomas Clark, wneud arolwg pensaernïol trylwyr o Gastell Caerffili. Cynhyrchwyd y darluniau manwl-gywir cyntaf o'r castell fel rhan o'r arolwg pensaernïol hwn.

Roedd George Thomas Clarke yn llawfeddyg, yn beiriannydd sifil, yn hanesydd, yn feistr haearn ac yn addysgwr, ac roedd ef a Thrydydd Ardalydd Bute yn diddori yn yr un pethau, megis archaeoleg, hanes y canol oesoedd ac ieithoedd. Roedd Clarke hefyd yn aelod o'r Gymdeithas Archaeolegol Frenhinol ac wedi ymchwilio a chyhoeddi 6 llyfr ar hanes y canol oesoedd ac achyddiaeth Morgannwg. Roedd yn gyfaill agos i'r Arglwydd Aberdâr.

Erbyn 1871 roedd y Trydydd Ardalydd wedi gosod to newydd ar Neuadd Fawr y castell. Gwnaethpwyd hyn i ddatlu 600 mlwyddiant y castell ac er mwyn gallu cynnal gwledd i aelodau'r Gymdeithas Archaeolegol Frenhinol, a oedd yn cynnal eu cyfarfod cyffredinol blynyddol yng Nghaerdydd. Ar gais yr Ardalydd ailadeiladwyd y mur cynnal ar ochr ogleddol y llyn gogleddol yn yr 1870au.

Yna dechreuodd yr Ardalydd broses o brynu'n ôl adeiladau prydles o amgylch y castell. Ei fwriad oedd dymchwel rhai o'r tai oedd wedi'u hadeiladu hyd at ymyl y safle, ond ni lwyddodd i adfer y castell i'w hen ogoniant gan iddo neilltuo amser i brosiectau a theithiau eraill.

Cysylltiad â Chastell Coch – John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, oedd perchennog Castell Coch a Chastell Caerdydd a bu'n gyfrifol am eu hailadeiladu. Roedd hefyd yn berchen ar Gastell Caerffili.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute; George Thomas Clark

Adeiladau – Castell Caerffili

Cludiant – Sut oedd pobl yn teithio rhwng Caerdydd a Chaerffili yn 1870?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

The Project Gutenberg EBook of John Patrick, Third Marquess of Bute, K.T., gan David Hunter Blair: <http://www.gutenberg.org/files/35884/35884-h/35884-h.htm>

Gwefan Welsh Newspapers arlein, gwybodaeth am G T Clark:
<http://welshnewspapers.llgc.org.uk/en/page/view/3425529/ART119>

Gwefan Coflein – ffotograffau, brasluniau Castell Caerffili: <http://www.coflein.gov.uk/>

1872

John Patrick Crichton-Stuart yn priodi Gwendolen Mary Ann Fitzalan-Howard

Yn 25 oed priododd John Patrick Crichton-Stuart â Gwendolen Mary Ann Fitzalan Howard, 19 oed, am 11.00 ar 16 Ebrill 1872 yn Brompton Oratory, Llundain. Roedd yn briodas fawreddog iawn gyda nifer o westeion pwysig, gan gynnwys Benjamin Disraeli, a ddaeth yn Brif Weinidog yn 1874.

Roedd ffotograffau o'r priodfab a'r briodferch yn yr Illustrated London News, a nifer o bapurau eraill hefyd yn rhoi hanes y briodas.

Mae cofnodion cyngor Caerdydd ym Mawrth 1872 yn nodi y byddai dathliadau cyhoeddus i anrhydeddu'r Ardalydd Bute, ac y byddai cyfraniadau cyhoeddus yn talu amdany'n nhw. Penodwyd pwyllgor i wneud y trefniadau. Ar ddiwrnod y briodas addurnwyd Caerdydd â bwâu godidog; codwyd delweddau o Hymen, duw Priodas, portreadau o'r pâr hapus ac arfbeisiau.

Roedd pwysigion Caerdydd yn aros i gyfarch y pâr ar ôl iddyn nhw gyrraedd Caerdydd wedi'r briodas. Ar ôl yr anerchiadau, tywyswyd y ddau drwy'r dref mewn coets agored, a'r dorf yn bloeddio am lwyddiant i'r ddau. Roedd nifer o bobl wedi cyrraedd ar drenau arbennig a drefnwyd ar eu cyfer gan y cwmnïau rheilffordd lleol. Cynhaliwyd nifer o wyliau cyhoeddus yng Nghaerdydd, gan gynnwys picnic i blant Pabyddol yn y parc y tu ôl i'r castell, a diwrnod o fabolgampau a champau acrobatig ym Mharc yr Arfau.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Patrick Crichton-Stuart; Gwendolen Mary Ann Fitzalan-Howard; Benjamin Disraeli

Adeiladau – Castell Caerdydd, Neuadd y Dref Caerdydd 1853-1904 (yn Heol Eglwys Fair); Parc yr Arfau.

Cludiant – Sut teithiodd Arglwydd ac Arglwyddes Bute o Lundain i Gaerdydd?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan British History Online, Cardiff Records Cyfrol 4:

<http://www.british-history.ac.uk/source.aspx?pubid=376>

Archifau Morgannwg: disgrifiad yn 'The Graphic' o briodas John Patrick Crichton-Stuart a Gwendoline Mary Ann Fitzalan-Howard <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Casgliad y Werin Cymru – ffotograffau o addurniadau ar y Stryd Fawr:

<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/11583>

The Project Gutenberg EBook of John Patrick, Third Marquess of Bute, K.T., gan David Hunter Blair: <http://www.gutenberg.org/files/35884/35884-h/35884-h.htm>

1875

Cwblhau Tŵr y Cloc, Castell Caerdydd

Daeth y gwaith o godi tŵr y cloc yng Nghastell Caerdydd i ben yn 1875. Roedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, a William Burges wedi ei gynllunio a'i adeiladu dros gyfnod o 10 mlynedd.

Pan gwblhawyd tŵr y cloc, hwn oedd yr adeilad uchaf yng Nghaerdydd (dros 40 metr o uchder), ac fe'i hadeiladwyd i ddarparu rhandai preifat i Drydydd Ardalydd Bute. Mae'n cynnwys nifer o ystafelloedd addurnedig ar saith llawr, gan gynnwys ystafell wely, ystafell i'r gweision, ystafell ysmygu yn yr haf ac ystafell ysmygu yn y gaeaf.

Thema tŵr y cloc yw amser. Crewyd y cloc gan Edward Dent, a fu hefyd yn gyfrifol am ddylunio Big Ben yn Llundain. Bob ochr i wynebau'r cloc mawr o haearn bwrw ceir saith ffigur mawr sy'n cynrychioli'r planedau fel duwiau Rhufeinig. Saif y ffigurau ar bedestalau yn dal rhinweddau sy'n berthnasol i'w harwyddion ar y Sidydd. Mae'r duwiau mewn gwisgoedd canol oesol, sef Sadwrn, Iau, Mawrth, Haul, Gwener, Mercher a Llun.

Mae pump tarian herodrol uwchben y cerfluniau bob ochr i dŵr y cloc.

Ar wyneb gogleddol y tŵr mae motiff derwen o arfbais Trydydd Ardalydd Bute.

Cysylltiad â Chastell Coch – cafodd y gwaith hwn ei gynllunio, ei ddylunio a'i oruchwylio gan William Burges, a fu hefyd yn gyfrifol am gynllunio, dylunio a goruchwylio'r gwaith ailadeiladu yng Nghastell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – William Burges; John Patrick Crichton-Stuart Trydydd Ardalydd Bute.

Adeiladau – Castell Caerdydd; Castell Coch

Cludiant – sut oedd deunyddiau adeiladu yn cael eu cludo? Pa ddulliau teithio'n ôl ac ymlaen i Gaerdydd oedd ar gael yn 1875?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan Castell Caerdydd: <http://www.cardiffcastle.com/>

Archifau Morgannwg – copiâu printiedig o ddarluniau o ddyluniadau ar gyfer adeiladau yng Nghaerdydd, gan gynnwys rhannau o Gastell Caerdydd, gan Burges; llyfrau ar Burges; mapiau: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein – cardiau post, ffotograffau, awyrluniau: <http://www.coflein.gov.uk>

Gwefan Casgliad y Werin Cymru, ffotograffau a darluniau:
<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/discover/query/cardiff%20castle>

1875

Gwaith ailadeiladu Castell Coch yn dechrau

Adfail castell canol oesol oedd Castell Coch, castell a oedd wedi ei adael ar ddechrau'r 1300au. Yn Awst 1875 dechreuodd y gwaith o ailadeiladu'r castell, gan ddilyn yr un cynllun llawr â'r castell gwreiddiol, ond gydag addurniadau mewnol a fyddai'n cyfleu castell canol oesol ffantasi o gyfnod Fictoria. Roedd William Burges wedi paratoi dwsinau o ddarluniau manwl a thrylwyr fel y gallai'r gweithwyr eu dilyn yn ofalus wrth weithio. Albert Estcourt a'i gwmni adeiladu o Gaerloyw oedd yn gyfrifol am y gwaith ailadeiladu.

Ni fwriadwyd erioed i Gastell Coch fod yn brif gartref i Drydydd Ardalydd Bute a'i deulu; fe'i hadeiladwyd fel preswylfan penwythnosau gydol yr haf. Roedd y datblygiadau technolegol diweddaraf yno – system gwres canolog, golau nwy, dŵr drwy bibellau, cegin fodern gyda ffwrn sylwedol, a tholedau dwrlif. Roedd y gwaith adeiladu wedi dod i ben erbyn diwedd 1879, ond byddai'r gwaith addurno'n parhau am 12 mlynedd arall, cyn cwblhau'r cyfan yn 1891. Bu farw William Burges yn 1881, a William Frame, ei gynorthwy-ydd, fu'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith o addurno tu mewn y castell.

Cysylltiad â Chastell Coch – Perchennog Castell Coch oedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, ac ef a dalodd am y gwaith adnewyddu. Ef hefyd fu'n gyfrifol am gynllunio'r adeilad a'r addurno mewnol gyda William Burges.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – William Burges; John Crichton-Stuart Trydydd Ardalydd Bute; William Frame; Albert Estcourt

Adeiladau – Castell Caerdydd; Castell Coch

Cludiant – sut oedd deunyddiau adeiladu yn cael eu cludo? Pa ddulliau teithio oedd ar gael yn 1875 yn ôl ac ymlaen i Dongwynlais?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Castell Coch

Gwefan Coflein – ffotograffau, awyrluniau: <http://www.coflein.gov.uk/>

Archifau Morgannwg – ffotograffau o Gastell Coch cyn yr ailadeiladu ac wedyn; mapiau: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Casgliad y Werin Cymru – ffotograffau, ysgythriad o'r castell yn adfail: <http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/11583>

1881

Marwolaeth William Burges

Ganwyd William Burges yn 1827; pensaer ydoedd a oedd hefyd yn dylunio gwaith metel, cerfluniau, gemwaith, celfi a gwydr lliw.

Cyfarfu William Burges a John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn 1865, a bu'r ddau'n gyfeillion oes. Bu'r Ardalydd yn gyfaill a noddwr i Burges am weddill ei oes, ac fe arweiniodd hyn at ei weithiau pwysicaf. I'r Ardalydd, Burges oedd y "soul-inspiring one".

Bu William Burges yn gyfrifol am tri prosiect adeiladu o bwys yng Nghaerdydd – ailadeiladu rhannau o Gastell Caerdydd, ailadeiladu Castell Coch, ac adeiladu Park House.

Cysylltiad â Chastell Coch – Roedd William Burges wedi gweithio ar gynllunio ac ailadeiladu Castell Coch am nifer o flynyddoedd gyda Thrydydd Ardalydd Bute a'i wraig.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – William Burges, William Frame (ei gynorthwydd)

Adeiladau – Castell Coch, Castell Caerdydd, Park House (20 Plas y Parc)

Cludiant – pa gysylltiadau cludiant oedd rhwng Caerdydd a Thongwynlais, a Chaerdydd a Llundain yn 1881? Sut byddai pobl yn teithio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan Coflein – llungopi o erthygl papur newydd, darluniau manwl-gywir, graffiau, ffotograffiau o Gastell Caerdydd, Castell Coch a Park House: <http://www.coflein.gov.uk/>

Archifau Morgannwg - copïau printiedig o ddarluniau o ddyluniadau ar gyfer adeiladau yng Nghaerdydd gan Burges; llyfrau ar Burges <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig ar-lein, manylion rhestru Park House: <http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-13772-park-house-castle>

1883

Sefydlu Prifysgol Caerdydd

Roedd adroddiad 1881 yr Arglwydd Aberdâr yn argymhell sefydlu coleg prifysgol newydd yn ne Cymru. Roedd Abertawe a Chaerdydd ill dau yn awyddus i gael eu dewis fel lleoliad y brifysgol newydd. Ym mis Rhagfyr 1881, sefydlodd Corfforaeth Caerdydd bwyllgor arbennig yn cynnwys 50 o ddynion pwysig o de ddwyrain Cymru, i ddenu'r brifysgol i Gaerdydd. Ymunodd 44 o ddynion eraill â'r pwyllgor yn Ionawr 1882, ynghyd ag Arglwyddes Llanofar.

Penodwyd Arglwydd Carlingford, Arglwydd Bramwell a'r Gwir Anrhydeddus A. J. Mundella, A.S, i benderfynu ble dylid lleoli'r brifysgol newydd, a dewiswyd Caerdydd yn unfrydol.

Agorodd y brifysgol newydd ei drysau ar 24 Hydref 1883 fel Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy. Cafwyd gŵyl gyhoeddus i ddatlu'r agoriad, ynghyd â gorymdaith trwy Gaerdydd a chanu clychau'r eglwysi drwy'r dydd. Sefydlwyd y Brifysgol yn ffurfiol gan Siartr Frenhinol yn 1884.

Sefydlwyd Neuadd Aberdâr gan Arglwyddes Aberdâr yn 1885 i hyrwyddo addysg menywod yng Nghymru, ac roedd yn darparu llety i fenywod a oedd yn fyfyrwyr yn y Brifysgol.

Cysylltiad â Chastell Coch – Roedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn berchen ar Gastell Coch ac fe gyfrannodd £10,000 tuag at gostau adeiladu'r brifysgol. Rhoddodd hefyd y tir y codwyd adeiladau cyntaf y brifysgol arno.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Arglwydd Aberdâr; Arglwydd Carlingford; Arglwydd Bramwell; y Gwir Anrhydeddus A. J. Mundella, A.S; Syr Hussey Vivian; Arglwyddes Aberdâr; Arglwyddes Llanofar; John Viriamu Jones; Henry Richard

Adeiladau – Adeiladau Prifysgol Caerdydd; Neuadd Aberdâr

Cludiant – Pa lwybr ddilynodd yr orymdaith trwy Gaerdydd? A oes pobl yn cerdded, neu'n teithio mewn rhyw ffordd arall?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – mapiau yn dangos adeiladau'r brifysgol; cynlluniau adeiladau'r brifysgol gan gynnwys Neuadd Aberdâr; cofnodion a llyfr Neuadd Aberdâr:

<http://www.glamarchives.gov.uk/>

British History online, Cardiff Records Cyfrol 5:

<http://www.british-history.ac.uk/place.aspx?gid=92®ion=8>

Gwefan Casgliad y Werin Cymru – Cerflun Henry Richard a gwybodaeth:

<http://www.peoplescollectionwales.co.uk/items/9423>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig ar-lein, gwybodaeth am Neuadd Aberdâr:

<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-13678-aberdare-hall-including-attached-ne-wing->

1886

Agor Cyfnewidfa Lo Caerdydd

Cyn yr 1880au byddai masnachwyr glo Caerdydd yn nodi prisiau newidiol glo â sialc ar lechi y tu allan i'w swyddfeydd, neu'n dod i gytundeb mewn tafarnau lleol. Pan ddaeth Caerdydd yn borthladd glo mwyaf y byd, roedd angen lle canolog i gynnal eu busnes, ac felly adeiladwyd Siambr Fasnach a Chyfnewidfa Lo Caerdydd yn Sgwâr Mount Stuart. Dyluniwyd yr adeilad hwn gan James, Seward a Thomas, ac yma y byddai pris glo drwy'r byd yn cael ei benderfynu yn yr 1880au a'r 1890au.

Byddai gwŷr busnes mwyaf blaenllaw Caerdydd – perchnogion pyllau glo, perchnogion llongau a chwmnïau llongau, a'u hasiantau – yn cyfarfod bob dydd yn y neuadd fasnach newydd i drafod a dod i gytundeb; byddai rhai trafodaethau'n digwydd gyda chwmnïau mewn gwledydd pell. Byddai cytundebau'n cael eu trefnu 'wyneb yn wyneb', ond hefyd trwy dechnoleg newydd y ffôn. Yn ystod yr awr brysuraf, rhwng 12.00pm – 1.00pm, byddai cynifer â 200 o ddynion yma yn masnachu glo, ac amcangyfrifwyd bod hyd at 10,000 o bobl yn mynd a dod o'r adeilad bob dydd.

Cysylltiad â Chastell Coch – the coal owners and shipping company owners were known to the 3rd Marquess of Bute, and some were friends and business partners, who may have been entertained at Castell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Edwin Seward; Richard Cory (Cory Brothers a'r Cwmni); John Cory; Evan Thomas (o Aber-porth); Henry Radcliffe (o Ferthyr Tudful); Charles Edward Evans (Glo Evan Reid); Phillip a Thomas Morel; William Tatem; John Mathias (Cambrian Steam Navigation Company)

Adeiladau – Adeilad y Gyfnewidfa Lo

Cludiant – llongau glo, ysgraffau a wagenni trên

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Gwefan Coflein – ffotograffau; darluniau manwl-gywir: <http://www.coflein.gov.uk/>

Archifau Morgannwg – cyfeirlyfrau masnach; cofnodion cwmnïau llongau; ffotograffau; cofnodion a chofrestr aelodau Siampl Fasnach Gorfforedig Caerdydd; blwyddlyfrau glo; ffotograffau, mapiau a chynlluniau yn ymwneud â chludiant yn ôl ac ymlaen i adeiladau'r dociau: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

British History online, Cardiff Records: <http://www.british-history.ac.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig:

<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-14015-cardiff-exchange-building-butetown>

1887

Agor Doc y Rhath

Roedd gan Gaerdydd dau doc eisoes, ond roedd cymaint o lo'n cael ei allforio yn yr 1880au fel nad oedd lle yn y dociau presennol i'r holl longau ddod i mewn a llwytho a dadlwytho eu llwythi. Roedd y Bari yn trafod y syniad o adeiladu dociau newydd, ac nid oedd Caerdydd eisieu colli'r fasnach lo, felly, adeiladwyd doc arall newydd.

Cymerodd y gwaith o adeiladu'r doc newydd pedair blynedd – torrwyd y dywarchen gyntaf gan Drydydd Ardalydd Bute ar 31 Ionawr 1883; daeth Corfforaeth Caerdydd a nifer o gymdeithasau masnach a lles at ei gilydd i drefnu dathliad, a chyhoeddwyd bod y diwrnod yn wyliau cyhoeddus. Roedd pwyllgor arbennig, a ffurfiwyd i drefnu'r dathliadau, wedi trefnu gorymdaith awyr agored o'r gwahanol gymdeithasau a phwysigion, i fod yn bresennol yn agoriad y Doc newydd.

Dyma oedd llwybr yr orymdaith: O Heol y Gorllewin, trwy Heol yr Angel, Heol Fawr, Heol Eglwys Fair, Heol Custom House, Ffordd Bute i'r Dociau.

Cynigiodd y Maer y dylai'r orymdaith ailymgynnull ar ôl i Drydydd Ardalydd Bute dorri'r dywarchen seremonïol, ac yna hebrwng yr Arglwydd yn ôl i Gastell Caerdydd cyn ymadael. Cynigiodd Joseph Tayleure wasanaeth ei fand pres, a wisgai lifrai arbennig, ar gyfer yr orymdaith, a derbyniodd y Pwyllgor y cynnig yn ddiolchgar.

Cysylltiad â Chastell Coch – Roedd John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute, yn berchen ar y doc newydd ac ar Gastell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – Robert Bird, Maer Caerdydd, John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute; Joseph Tayleure (Taylor), perchennog syrcas a pherfformiwr.

Adeiladau – Doc y Rhath

Cludiant – pa ddulliau cludo a ddefnyddid i gludo nwyddau i mewn ac allan o'r Doc? Faint o amser fyddai pobl yn ei gymryd i gerdded ar hyd y llwybr o Heol y Gorllewin i Ddoc y Rhath?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – cynlluniau, mapiau a ffotograffau – gan gynnwys rhai o agoriad y doc:
<http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein – ffotograffau: <http://www.coflein.gov.uk/>

British History Online, Cardiff Records: <http://www.british-history.ac.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig, manylion rhestru Loc y Rhath:
<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-14062-dock-walls-of-roath-basin-including-sea-w>

1896

Adeiladu 'Mansion House'

Dyluniwyd Mansion House, a alwyd yn wreiddiol yn 'Grove House', gan Habershon a Fawckner, penseiri yn Llundain, Casnewydd a Chaerdydd.

Roedd Habershon a Fawckner yn gweithio i'r Arglwydd Tredegar yn dylunio ac adeiladu nifer o adeiladau eraill yng Nghaerdydd, gan gynnwys ysgol Ffordd Marlborough, tai yn y Rhath, a'r rhan fwyaf o'r tai yn Sblot.

Adeiladwyd Grove House ar dir ar brydles oddi wrth yr Arglwydd Tredegar, a dechreuodd y gwaith adeiladu yn 1891.

Adeiladwyd y tŷ, un o'r rhai mwyaf mawreddog yng Nghaerdydd, ar gyfer James Howell, sylfaenydd siop Howells. Roedd angen cartref sylweddol ar James Howell gan fod ganddo 11 o blant. Sicraodd fod y tŷ'n cael ei ddylunio gyda mynedfa ddwbl, fel y byddai modd ei rannu'n ddau dŷ unigol ar ôl i'w blant dyfu a gadael y cartref.

***Cysylltiad â Chastell Coch** – Dechreuodd y gwaith o adeiladu Grove House yn 1891, a chwblhawyd y gwaith ar Gastell Coch yn yr un flwyddyn. Roedd y ddau eiddo'n adeiladau pwysig, wedi'u hadeiladu gan ddynion cyfoethog iawn a oedd yn adnabod ei gilydd. Roedd y ddau'n rhan o ddatblygiad Caerdydd a'r cyffiniau fel prif dref Cymru.*

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – James Howell; Godfrey Charles Morgan, Is-iarll Cyntaf Tredegar

Adeiladau – Mansion House, gyda'i enw gwreiddiol 'The Grove', adeilad siop Howells

Cludiant – Pa lwybr y byddai James Howell wedi'i ddilyn o'i gartref newydd i siop Howells? Sut byddai wedi teithio?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – cynlluniau o'r Mansion House, papur ymchwil ar hanes Mansion House; cofnodion cyfrifiad: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein – cardiau post: <http://www.coflein.gov.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig:
<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-26661-the-mansion-house-plasnewydd>

British History online, Cardiff Records, Cyfrol 5:
<http://www.british-history.ac.uk/place.aspx?gid=92®ion=8>

Taith rithwir o gwmpas Mansion House:
http://www.vp360.co.uk/mansionhouse/index_standalone.html

1897

Codi adeilad Pierhead

Codwyd adeilad Pierhead fel pencadlys a swyddfeydd i Gwmni Doc Bute, ar ôl i swyddfeydd blaenorol y cwmni gael eu dinistrio gan dân yn 1892. Dyluniwyd yr adeilad newydd hwn gan William Frame, a'i adeiladu o flociau terracotta llyfn wedi'u gwneud gan JC Edwards a'r Cwmni o Acrefair ger Rhiwabon. Cymerodd bron i dair blynedd i'w adeiladu a chostiodd oddeutu £30,000. Talwyd am y gwaith gan John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute. Hwn oedd yr adeilad mwyaf yn Butetown ers dros 175 o flynyddoedd, a hwn oedd yr adeilad cyntaf y byddai morwyr yn ei weld pan ddeuai eu llongau i Gaerdydd.

Gelwir cloc adeilad Pierhead yn aml yn 'Big Ben' Caerdydd. Er bod wynebau'r cloc yn dal i'w gweld ar yr adeilad, tynnwyd mecanwaith gwreiddiol y cloc a'i werthu yn 1973 i Americanwr a oedd yn bwriadu ei adnewyddu. Dychwelwyd mecanwaith y cloc i Gaerdydd yn 2005, ac ers hynny, mae wedi ei atgyweirio a'i arddangos mewn casyn gwydr mawr ar Heol Eglwys Fair ers 2011.

Cysylltiad â Chastell Coch – Bu William Frame yn cynorthwyo William Burges gyda'r gwaith o ailadeiladu Castell Coch, ac ef a fu'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith yn dilyn marwolaeth William Burges. Yn ôl Deddf (Trosglwyddo) Dociau Bute ar 25 Mehefin 1886, sefydlwyd cwmni newydd o'r enw Cwmni Doc Bute, a throsglwyddwyd Dociau a Rheilffyrdd Caerdydd o berchnogaeth Trydydd Ardalydd Bute (perchennog Castell Coch) ac eraill i Gwmni Doc Bute o 31 Rhagfyr 1886. Roedd Trydydd Ardalydd Bute yn berchen ar Gastell Coch.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – William Frame; John Patrick Crichton-Stuart, Trydydd Ardalydd Bute; Syr William Thomas Lewis, Rheolwr Cyffredinol y dociau; perchnogion eraill cwmni Dociau a Rheilffyrdd Caerdydd

Adeiladau – adeiladu Pierhead, cloc adeilad Pierhead

Cludiant – sut byddai nwyddau'n cael eu cludo i mewn ac allan o Dociau Bute? Ble gwnaethpwyd y briciau terracotta a ddefnyddiwyd i adeiladu Pierhead, a sut gawson nhw eu cludo i Gaerdydd? Sut teithiodd mecanwaith y cloc i America, ac yna'n ôl o America?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg – cynlluniau, mapiau a ffotograffau: <http://www.glamarchives.gov.uk/>

Gwefan Coflein – ffotograffau: <http://www.coflein.gov.uk/>

Gwefan Adeiladau Rhestredig Prydeinig:

<http://www.britishlistedbuildings.co.uk/wa-14055-pier-head-building-butetown>

1900

Marwolaeth John Patrick Crichton-Stuart

Cafodd John Patrick Crichton-Stuart strôc yn 1896, a bu'n sâl o'r adeg honno tan iddo farw ychydig oriau ar ôl dioddef strôc arall pan oedd yn 53 oed. Fe'i claddwyd mewn capel bychan ar Ynys Bute, yr Alban, ond claddwyd ei galon ar Fynydd yr Olewydd yn Jerwsalem. Aeth ei wraig a'i blant â'i galon yno ychydig ddyddiau ar ôl ei farwolaeth.

Gŵr tawel, preifat ydoedd; roedd yn well ganddo dreulio'i amser a gwario'i arian ar ei ddiddordebau trwy gydol ei fywyd yn hytrach na bod ar ganol y llwyfan cymdeithasol. Ei brif ddiddordebau oedd hanes, celf, ieithoedd, celf a phensaernïaeth ganol oesol, a theithio. Roedd wedi astudio, a gallai ddeall 21 o ieithoedd, gan gynnwys Lladin a Chymraeg.

Bu'n Rheithor Prifysgol St Andrews rhwng 1892 a 1897, ac roedd yn noddwr pensaernïol a gomisiynodd oddeutu 60 o brosiectau adeiladau yng Nghymru a'r Alban.

Yn ystod ei oes roedd John Patrick Crichton-Stuart hefyd wedi crynhoi casgliad anhygoel o dros 25,000 o lyfrau, arteffactau, gwaith arian a chelfi, ac mae'r casgliad hwn i'w weld yng nghartref teulu'r Bute yn Mount Stuart, yr Alban.

Priododd pan oedd yn 25 oed, a chafodd un ferch a thri mab.

Adeg ei farwolaeth roedd ei ystadau ym Morgannwg yn ymestyn dros 22,000 erw o dir, ac yn cynnwys nifer o adeiladau pwysig, gan gynnwys Castell Caerdydd, Castell Coch a Chastell Caerffili.

Cysylltiad â Chastell Coch – John Crichton-Stuart oedd perchennog Castell Coch, a symudodd ei wraig Gwendolen a'u merch Margaret i Castell Coch am rai wythnosau ar ôl ei farwolaeth. Rhoddwyd Castell Coch i Gwendolen Mary-Ann Crichton-Stuart am weddill ei hoes.

Gallai disgyblion ymchwilio:

Pobl – John Crichton-Stuart, Gwendolen Mary-Ann Crichton-Stuart, Margaret Crichton-Stuart

Adeiladau – ymchwilio i'r adeiladau roedd John Crichton-Stuart yn berchen arnyn nhw, wedi'u comisiynu neu'n byw ynddyn nhw: Dociau Bute a'r Rhath; Castell Caerdydd; Castell Coch; Park House; Adeilad Pierhead

Cludiant – pa ddulliau cludiant oedd ar gael i bobl gyfoethog iawn yn 1900?

Ble i gael gwybodaeth bellach:

Archifau Morgannwg: toriadau papur newydd ar farwolaeth Trydydd Ardalydd Bute:
<http://www.glamarchives.gov.uk/>

Wyrchwys taflen wybodaeth

Yn ôl Deddf y Tlodion 1601, roedd plwyfï'n gyfrifol am ofalu am eu tlodion eu hunain. Telid am hyn trwy gasglu treth tlodion oddi ar pobl oedd yn berchennog ar eiddo yn lleol. Nid oedd sôn am dai wyrchwys yn Neddf 1601, ond nodwyd y dylid casglu deunyddiau i ddarparu gwaith i'r sawl oedd yn gorfforol abl – a bygythiad carchar i'r sawl oedd yn gwrthod gweithio. Roedd hefyd yn cynnig y dylid adeiladu tai i'r "tloedion analluog" — henoed, pobl oedd yn barhaol sâl, ac ati. Byddai'r ddeddf yn cael ei gweithredu'n lleol, ond doedd hi ddim yn cael ei gweithredu'n gyson, ac roedd cynnal wyrchwys yn hollol wirfoddol.

Yn 1777 roedd gan blwyf Caerdydd (Sant Ioan Fedyddiwr a'r Santes Fair) wyrchwys i hyd at 200 o bobl, ar ochr orllewinol Heol Eglwys Fair; lle'r oedd cangen o Fanc National Provincial yn ddiweddarach, gyferbyn â charchar y dref.

Yn 1834 pasiodd y Senedd Ddeddf Newydd y Tlodion, yn seiliedig ar yr uned weinyddol newydd o Undeb Deddf y Tlodion. Y nod oedd cyflwyno system safonol a llym a fyddai'n cael ei gorchwylïo'n ganolog ac yn seiliedig ar y wyrchwys. Roedd Bwrdd Gwarcheidwaid a etholid yn lleol yn rheoli pob Undeb Deddf y Tlodion, a'r system gyfan yn cael ei gweinyddu gan Gomisiwn Canolog Deddf y Tlodion. Sefydlwyd Undeb Caerdydd ar 13 Medi 1836 ac roedd Bwrdd Gwarcheidwaid gyda 53 o aelodau etholedig yn cynrychioli 44 o'r plwyfï lleol yn gyfrifol am weinyddu'r drefn yn lleol.

Adeiladwyd cannoedd o dai wyrchwys ar ddiwedd yr 1830au ar hyd a lled Cymru a Lloegr; ac ni fyddai cymorth yn cael ei roi i unrhyw tloedion os nad oedden nhw'n fodlon mynd i'r wyrchwys. Pe byddai gŵr corfforol abl yn mynd i'r wyrchwys, byddai'n rhaid i'r teulu cyfan fynd gydag e. Yn 1839 adeiladwyd wyrchwys newydd ar Ffordd y Bontfaen, Caerdydd gyda lle i 260 o bobl, ar gost o tua £7,500.

Cyn hir roedd y wyrchwys hwn yn orlawn gan fod poblogaeth Caerdydd yn tyfu mor gyflym. Yn 1862 symudwyd y plant a oedd yn byw yno i Ysgolion Diwydiannol Elái, tua milltir a hanner i ffwrdd. Câi'r plant addysg sylfaenol, ynghyd â hyfforddiant a fyddai'n eu helpu i gael gwaith yn ddiweddarach. Dysgai'r merched sut i olchi, gwneud gwaith tŷ a gwaith gwnïo, a dysgai'r bechgyn gwaith coed, teilwra a gwaith crydd.

Yn 1872 ychwanegwyd clafdy gyda 164 gwely ar ochr orllewinol y wyrchwys. Yn 1879, dechreuwyd ar y gwaith o adnewyddu ac ail-lunio'r wyrchwys, a chwblhawyd yr adeilad newydd erbyn 1881 ar gost o £27,000. Adeiladwyd adain newydd yn 1890 ar gost o £9,000. Yn ddiweddarach daeth adeiladau'r wyrchwys yn Ysbyty Dewi Sant.

Roedd bywyd y tu mewn i'r wyrchwys yn galed - byddai dynion, gwragedd, plant a chleifion yn cael eu gwahanu. Caent fwyd sylfaenol iawn, fel uwd dyfrllyd, 'gruel', neu fara a chaws. Roedd yn rhaid i'r holl aelodau wisgo gwisg wyrchwys o ddefnydd garw, a chysgu mewn lloffydd enfawr. Byddent yn cael baddon dan oruchwyliaeth unwaith yr wythnos. Byddai'r sawl oedd yn gorfforol abl yn cael gwaith caled i'w wneud, fel torri cerrig neu ddatod hen raffau (o'r enw oakum). Byddai'r henoed a'r cleifion yn eistedd yn yr ystafelloedd dydd neu'r wardiau heb fawr o gyfle i weld ymwelwyr. Ychydig iawn o gyswllt oedd rhwng rhieni a'u plant – efallai awr neu ddwy unwaith yr wythnos ar brynghawn Sul.

Mae gwefan y wyrchwys yn cynnwys gwybodaeth ddiweddarach am wyrchwys Caerdydd:
<http://www.workhouses.org.uk/Cardiff/Cardiff1881.shtml>

Cólera taflen wybodaeth

Haint bacteriol sy'n lledu mewn dŵr yfed wedi'u halogi gan garthffosiaeth, neu trwy fwyta bwyd wedi'i halogi, yw cólera. Mae'n achosi dolur rhydd a chwydu, a gall pobl ddiodef o golli dŵr a diodef sioc yn sydyn iawn. Os na chaiff ei drin, gall cólera yn fod yn farwol. Yn yr 1800au doedd dim triniaethau effeithiol ar gyfer cólera.

Cafodd yr achos cyntaf o'r cólera y gwyddom amdano ym Mhrydain ei gofnodi yn 1831, a bu achos difrifol yn 1848. Cafwyd achosion o'r cólera yng Nghaerdydd yn 1832, 1849, 1854 ac 1866, a chafwyd yr achos gwaethaf o'r cólera yng Nghymru yng Nghaerdydd yn 1849.

Yn 1849 roedd gan Gaerdydd broblemau mawr yn gymdeithasol ac o ran iechyd cyhoeddus o ganlyniad i'r cynnydd cyflym yn y boblogaeth. Mae cofnodion yn dangos bod 36 o bobl y ogystal â 'nightly lodgers' yn byw yn rhif 15 Stanley Street, a bod 54 o bobl yn byw yn rhif 17; roedd 500 o bobl yn byw mewn 27 o dai dwy ystafell yng Nghwrt Landore yn Heol Santes Fair. Byddai pobl yn cysgu mewn shiffiau, ac yn mynd i'r toiled mewn bwcedi. Doedd dim dŵr rhedeg yn y tai hyn, nac ystafelloedd ymolchi na thoiledau.

Byddai Afon Taf a Chamlas Morgannwg yn cael eu defnyddio ar gyfer dŵr yfed a hefyd ar gyfer gwaredu carthion. Byddai dŵr yfed hefyd yn cael ei dynnu o bwmpiau yn y dref (ond doedd y rhain ddim bob amser yn lân) a ffynhonnau preifat.

Marwolaethau dau fachgen bach yn Ionawr a Chwefror oedd y rhai cyntaf yn ystod yr achos cólera yng Nghaerdydd yn 1849. Rhwng 20 Mai a 21 Mehefin bu 274 achos o'r cólera a 138 marwolaeth. Erbyn diwedd y digwyddiad roedd tua 400 wedi marw o'r cólera yng Nghaerdydd, a'r olaf ym mis Rhagfyr 1849.

Tuag wythnos ar ôl nodi'r achos cyntaf o'r cólera yng Nghaerdydd, cafwyd achosion yn Merthyr Tudful, Dowlais ac Aberdâr, a achosodd dros 1,400 o farwolaethau. Roedd y clefyd wedi lledu o Gaerdydd i Ferthyr.

Dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1848 crëwyd y Bwrdd Iechyd Cyffredinol a byrddau iechyd lleol. Hysbyswyd y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus am yr achos o'r colera yng Nghaerdydd, ac anfonwyd Dr Sutherland i Gaerdydd. Rhannwyd Caerdydd yn ardaloedd, a phenodwyd swyddog meddygol i bob ardal. Byddai Meddyg yn ymweld â phob tŷ yn y dref unwaith y dydd. Cafodd tai eu gwyngalchu â chalch, a chynghorwyd pobl oedd yn byw ger Camlas Morgannwg i symud.

Yn yr 1840au ni wyddai pobl beth oedd yn achosi colera. Roedd ofn arnyn nhw, a symudodd rhai pobl ymaith nes i'r achosion ddod i ben. Credai pobl mai'r arogleuon drwg o'r draeniau a'r carthffosydd oedd wedi achosi'r colera, neu hyd yn oed fwyd drwg, neu amodau oer neu laith; a chredai eraill ei fod wedi digwydd oherwydd bod Camlas Morgannwg wedi ei sychu toc cyn i'r epidemig ddechrau. Roedd eraill o'r farn mai ymddygiad drwg oedd yr achos, ac yn wir, clywyd rhai yng Nghaerdydd yn esbonio mai 'shocking habits of the Irish!' oedd yn gyfrifol.

Yng Nghaerdydd, buddsoddwyd bron i £100,000 i wella'r draeniau a'r cyflenwadau dŵr rhwng 1848 ac 1872. Erbyn 1856 roedd poblogaeth Caerdydd wedi cyrraedd 30,925, ond roedd y system garthffosiaeth/draenio newydd bron yn barod, ac roedd cyflenwad o ddŵr glân ar gael. Ni chafwyd dim achosion o'r cólera yng Nghaerdydd ar ôl 1872, gan fod dŵr yfed glân i'w gael ar draws y ddinas.

Trosedd a Chosb taflen wybodaeth

Yn yr 1700au y prif ddulliau o gosbi troseddwyr oedd eu dirwyo, eu crogi neu eu cludo i wledydd eraill - America hyd yr 1770au, ac yna Awstralia. Roedd yna garchardai hefyd, ond yn aml roeddynt mewn hen adeiladau fel cestyll, ac fe'i defnyddid gan amlaf i garcharu pobl a oedd mewn dyled nes byddai'r ddyled wedi'i thalu neu nes iddyn nhw sefyll eu prawf. Byddai ceidwad y carchar yn rhedeg pob un o'r carchardai hyn fel y mynnai, a gallai'r carcharorion yn y carchardai hyn brynu cysuron pe byddai ganddynt ddigon o arian.

Yn yr 1800au roedd troseddu a delio â throseddu yn un o'r problemau mwyaf ym Mhrydain. Cododd niferoedd y troseddau a gofnodwyd yn Llundain o tua 5,000 o droseddau'r flwyddyn yn yr 1800au i 20,000 y flwyddyn yn yr 1840au. Cafwyd ffigurau tebyg yn ninasoedd eraill Prydain, oherwydd golygai'r chwyldro diwydiannol fod llawer o bobl wedi troi cefn ar fyw yn y wlad gan symud i fyw a gweithio yn y dinasoedd, neu mewn trefi diwydiannol fel Merthyr Tudful.

Credai pobl cyfnod Fictoria ei bod yn rhaid i droseddwyr wynebu eu cyfrifoldebau, a'i bod yn rhaid cosbi pobl am eu troseddau. Yn ogystal â dirwyo, crogi a chludo pobl i wledydd eraill, dechreuwyd anfon troseddwyr i'r carchar. Yn yr 1830au roedd Awstralia wedi cwyno bod Prydain yn defnyddio'r wlad i gael gwared ar droseddwyr digroeso ac annymunol.

Roedd tua 90 o garchardai newydd neu garchardai a ehangwyd yn bodoli ym Mhrydain rhwng 1842 ac 1877. Byddai dynion, menywod a phlant yn aml yn cael eu cadw gyda'i gilydd.

Yn yr 1800au credai pobl fod troseddu ymhlith plant yn beth ofnadwy, ac o ganlyniad sefydlodd y Llywodraeth y 'Pwyllgor ar gyfer Ymchwilio i'r Cynnydd Ofnadwy mewn Troseddau leuenctid yn y Metropolis' (Llundain) yn 1816.

Yn 1837 ysgrifennodd Charles Dickens lyfr o'r enw Oliver Twist, gan ddisgrifio sut oedd grwpiau o blant ifanc yn dwyn o bocedi pobl yn Llundain, dan arweiniad 'meistr' y giang.

Roedd plant a phobl ifanc gyffredin ledled Prydain hefyd yn dwyn pethau - dillad neu fwyd iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd pan na fyddai digon o fwyd ganddyn nhw. Yr un oedd y gosb i blant ag i oedolion, ac yn aml byddai plant yn cael eu carcharu am gyfnodau hir am fân droseddau. Doedd hi ddim yn anghyffredin gweld plentyn 10-14 oed yn cael ei garcharu am ddeufis am ddwyn bwyd neu dillad.

Yn 1847 pasiwyd Deddf Troseddau leuenctid a ddywedai ei bod yn rhaid i bobl ifanc dan 14 oed (codwyd i 16 ymhen ychydig) sefyll prawf mewn llys arbennig, nid llys oedolion. Yn 1854 sefydlwyd ysgolion penyd; carchardai i bobl ifanc oedd y rhain, a sefydlwyd er mwyn gwahanu'r bobl ifanc oddi wrth "ddylanwad drwg" y cartref a'r amgylchedd, a'u dysgu sut i ymddwyn yn iawn. Byddai plant a phobl ifanc yn cael dedfrydau hir, sawl blwyddyn yn aml, mewn ysgolion penyd am dorri'r gyfraith.

Mae gan wefan The National Archives adnodd addysg ar Garchardai Oes Fictoria:

<http://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/victorian-prison/>

<http://www.nationalarchives.gov.uk/education/candp/>

Llafur Plant taflen wybodaeth

Roedd disgwyl i blant o deuluoedd tlawd weithio yn yr 1800au. Yn aml byddai gan deuluoedd nifer fawr o blant ac ni allent fforddio'u bwydo i gyd, neu dalu'r rhent, oni bai bod y plant hŵn yn dod ag incwm i'r cartref. Roedd y gwaith a wnâi'r plant hyn yn aml yn galed a pheryglus.

Dechreuodd rhai o wleidyddion Prydain boeni am y math o amgylchiadau roedd y plant hyn yn gweithio ynddynt, y swyddi y byddent yn eu gwneud a'u hoed yn dechrau gweithio; aeth nifer ati i ddod i wybod mwy am lafur plant, a chafwyd ymchwiliad mawr i sefyllfa plant yn gweithio mewn pyllau glo yn 1842.

Arweiniodd rhai o'r ymchwiliadau hyn at basio deddfau newydd i amddiffyn plant:

1833 – Roedd y Ddeddf Ffatrioedd yn nodi na allai plant dan 9 oed weithio mewn ffatrioedd, a'i bod yn rhaid i gyflogwyr gael tystysgrif feddygol neu dystysgrif oedran ar gyfer gweithwyr ifanc. Ni châi plant bellach weithio gyda'r nos, ac ni châi plant 9-13 oed weithio mwy na 9 awr y dydd. Ni châi plant rhwng 13-18 oed weithio mwy na 12 awr y dydd. Roedd dwy awr o ysgol yn orfodol bob dydd i blant. Penodwyd pedwar goruchwyliwr ffatrioedd i sicrhau bod cyflogwyr yn cadw'r gyfraith drwy'r Deyrnas Gyfunol yn gyfan. Wrth gwrs, doedd hyn ddim yn golygu bod cyflogwyr yn rhoi llawer o sylw i'r ddeddf, nac ychwaith bod cam-drin plant wedi diflannu dros nos.

1870 – Roedd Deddf Addysg Forster yn dweud ei bod yn rhaid i bob rhan o Brydain ddarparu ysgolion i blant 5 i 12 oed. Doedd yr holl ysgolion ddim yn rhad ac am ddim, ac ni allai rhai teuluoedd fforddio 'ceiniog yr ysgol' bob wythnos. Gan nad oedd mynd i'r ysgol yn orfodol, doedd rhai plant ddim yn mynd i'r ysgol; roeddynt yn dal i weithio.

1880 – Roedd mynd i'r ysgol yn orfodol, ac roedd yn rhaid i bob plentyn yn y Deyrnas Gyfunol fynd i'r ysgol nes oedd yn 10 oed.

1889 – Codwyd oed gadael ysgol i 12.

1891 – Diddymwyd "ceiniog yr ysgol", a oedd yn golygu bod ysgolion yn rhad ac am ddim.

1901 – Codwyd yr oed isaf ar gyfer dechrau gweithio i 12..

Pa fath o waith fyddai plant yn ne Cymru yn ei wneud yn yr 1800au?

Yn draddodiadol byddai plant wedi gweithio fel gweision, neu wedi gwneud gwaith amaethyddol. Roedd y Chwyldro Diwydiannol wedi newid y byd, a dechreuodd rhai plant hefyd weithio ym myd diwydiant – yn y pyllau glo, y gweithfeydd haearn, copr a thun, ac mewn ffatrioedd.

Roedd plant yn gweithio yng Ngweithfeydd Haearn De Cymru ym Mlaenafon; y pedwar Gwaith Haearn ym Merthyr Tudful – Cyfarthfa, Dowlais, Penydarren, Cyfarthfa; ac yng Nghlydach a Nant-y-glo (ger Brynmawr) a Cendl (ger Glynabwy).

Byddai plant yn gweithio ym mhyllau glo de Cymru, gan ddechrau fel rheol yn 8-9 oed, ond weithiau mor ifanc â 4 neu 5. Roedd rhai o'r twneli dan ddaear yn rhy fach i'r dynion, a phlant yn unig allai weithio ynddyn nhw. Glo oedd y cynnyrch mwyaf oedd yn cael ei allforio o Gymru yn yr 1850au.

Doedd hi ddim yn anarferol i blant weithio hyd at wyth neu ddeuddeg awr y dydd, chwe diwrnod yr wythnos.